PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 9 | Chwefror 26, 2026 | 50c.

## Prosiect recordio'r Beder Ifengyl

### Undeb yr Annibynwyr yn dod â'r Beibl yn fyw ar sain

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn ymgymryd â chynllun uchelgeisiol a chyffrous i recordio fersiwn sain newydd o'r *Beder Ifengyl* (tafodiaith Sir Benfro) a fydd ar gael i'w chlywed gan gynulleidfaoedd ehangach, gan uno traddodiad, technoleg a thalent Cymreig mewn un gwaith trawsnewidiol.




### Recordio mewn stiwdio broffesiynol

Mae'r recordio'n digwydd yn stiwdio Llyfrau Llafar Cymru, cartref i nifer o brosiectau sain Cymraeg nodedig dros y degawdau. Yno, mae'r gwaith technegol o dan ofal y peiriannydd dawnus Fabio Lewis, sy'n wreiddiol o Batagonia ac sydd bellach yn gyfarwydd a chlywed tafodiaith y wês-wês ar lafar! Mae'r prosiect yn cael ei oruchwylio gan y Parchg Geraint Morse, sy'n sicrhau bod y gwaith yn aros yn driw i ysbryd a chywirdeb y testun Beiblaidd. Hyd yma, mae recordiadau eisoes wedi'u cwblhau gan y Parchg Sian Elin Thomas ac Awen Evans, gyda'r ddwy'n cyfaddef ei bod hi'n her ond eto'n hwyliog cael recordio'r penodau.

Sail y prosiect yw testun y diweddar Lyn Lewis Dafis, offeiriad ac un o feibion Mynachlog-ddu. Mae ei gyfieithiad ar gael ar y we eisoes, ond dyma'r tro cyntaf i'r *Beder Ifengyl* gael ei recordio ar lafar.







### Lansio yn y brifwyl

Disgwylir lansio'r prosiect gorffenedig yn Eisteddfod y Garreg Las yn Sir Benfro yn ystod yr haf. Bydd hwn yn gyfle arbennig i gyflwyno'r gwaith i'r cyhoedd a chael cyfle i glywed y recordiadau am y tro cyntaf, ac yn fuan wedyn byddant ar gael yn llawn ar Ap Beibl i bawb sydd am wrando.

## Dathlu Gŵyl Ddewi

### Sengl ddwbl newydd gan Undeb yr Annibynwyr

Wrth i Gymru baratoi i ddathlu Gŵyl Ddewi ar 1 Mawrth, mae'r Undeb wedi lansio sengl ddwbl newydd ar gyfer oedfaon ac unigolion.




Côr Caerdydd sydd wedi recordio'r ddwy gân, yn dilyn cyhoeddi dwy garol arbennig ar gyfer y Nadolig y llynedd.

'Anthem: Cedwch y Ffydd' gan y cyfansoddwr adnabyddus Robat Arwyn yw'r trac cyntaf ar y sengl. Mae'r gân yn seiliedig ar eiriau hanesyddol Dewi Sant ei hun: 'Byddwch lawen, cadwch y ffydd a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i.' Gyda'r recordiad, mae fideo hyfryd i gyd-fynd â'r gân ar gael i'w lawrlwytho o wefan annibynwyr.cymru. Mae'n cynnwys delweddau trawiadol o bob cwr o Gymru, gan ddangos harddwch naturiol y wlad.

'Gwyn dy Fyd' gan y cyfansoddwr nodedig Eric Jones, sy'n aelod o Eglwys Hope Siloh, Pontarddulais yw'r ail drac. Daw'r gân o gytgan o'r sioe gerdd 'Penderyn'.

### Ar gael i'w lawrlwytho ar gyfer 1 Mawrth

Bydd y ddwy gân ar gael i'w lawrllwytho ar brif lwyfannau digidol gan gynnwys Spotify ac Apple Music mewn pryd ar gyfer dydd Gŵyl Dewi. Beth am fynd ati i'w defnyddio mewn gwasanaethau ar ddiwrnod ein nawddsant, gan rannu'r neges sy'n parhau i atseinio'n glir o oes i oes: 'Cadwch y ffydd.'

# Soar, Nefyn
## Dathlu’r Nadolig yn y gymuned

Rydym yn cael ein siarsio i fynd â neges yr Efengyl i’n cymunedau yn ogystal â sicrhau bod y drws yn agored i bawb, felly yn 2025 awgrymwyd ein bod yn mynd â ‘Drama’r Nadolig’ i’r Heliwr, ein tafarn gymunedol ar y pnawn Sul yn dilyn y Nadolig.



Rydym yn ffodus bod Meinir Pierce Jones, un o’n haelodau, yn giamstar ar sgwennu a chrëwyd sgript trwy lygad gohebwraig o S4C oedd ym Methlehem adeg y geni gwyrthiol! Chwarae teg, roedd Geraint, ei gŵr, yn ein cynorthwyo ar yr ochor sain. Dyma gyfle i aelodau hŷn a phlant yr ysgol Sul i ymuno yn yr hwyl. Roedd gŵr a gwraig y llety yn cadw ‘Air B&B’ ac wedi cynnig lle i Mair a Joseff, ond erbyn i’r ohebwraig gyrraedd, roeddent wedi diflannu! Roedd bugeiliaid wedi gweld a chlywed neges yr angylion, a’r plant yn awyddus i wisgo fel angylion. Erbyn i’r ohebwraig eu cyrraedd, roeddent yn ôl yn y caeau unwaith eto yn gwarchod eu defaid, ac roeddent wedi gweld y Baban ac wedi mynd ag oen yn anrheg.

Cafodd yr ohebwraig gyfweliad efo Herod, ond doedd o ddim yn hapus am y sefyllfa ac yn disgwyl doethion yn ôl i’w gyfarwyddo am leoliad y Baban a’r teulu er mwyn iddo eu difa. Daeth yr ohebwraig ar draws y ‘doethion’, ond anfodlon oeddent i gyfaddef eu bod wedi gweld y Baban a’i anrhegu hyd nes i’r ohebwraig eu darbwyllo na fyddai Herod yn dechrau chwilio amdanynt tan y bore canlynol!

Bu darnau o gerddoriaeth Nadoligaidd a charolau cynulleidfaol gan y criw mawr, a oedd wedi ymgynnull yn awyrgylch braf bar cefn Yr Heliwr, yn britho’r golygfeydd. Ond sylwch nad oedd Mair a Joseff a’r Baban yn bresennol – preseb gwag oedd ar ein ‘llwyfan’, a dyna’r cwestiwn hollbwysig: ble mae’r Iesu heddiw? Yn ein bywydau? Yn ein cymunedau? Dyma ein sialens.

Ar drothwy’r Nadolig, collasom ein gweinidog, y Parchg Glenys Jones, a





chafwyd casgliad hael er cof amdani at waith Tŷ Gobaith yng Nghonwy yn sgil y ddrama – ei helusen ddewisedig ar ddiwrnod ei chynhebrwng.

**Janet Wyn Hughes**

*(Mae’r Tyst yn ymddiheuro na chafodd yr erthygl hon ei chyhoeddi cyn hyn.)*




Ystyriwch eich pethau bychain chi,
y pethau bach a gariwch yn gwmni
ym mhoced gudd eich calonnau bob dydd
yn gwmws fel pecyn mints neu hancesi.

Tynnwch nhw mas a’u dangos i’r golau,
gosodwch nhw ar y bwrdd o’ch blaenau,
neu eu dala ar gledr eich llaw a’u troi
gan graffu, syllu, sylwi.
A chofiwch mai’r pethau bychain hyn
sy’n rhoi blas i’ch byw
yn union fel gronynnau halen.
Y pethau bychain hyn ddaw â lliw i’ch byd,
ddaw ag ystyr mwy i bethau o hyd.

Pa bethau bychain dynnwch chi o’ch poced heddi, gwedwch?
Gwên dieithryn ar stryd brysur mewn dinas
sy’n siŵr o lonni diwrnod diflas.
Adar yn rhannu cân heb warafun ’run dôn na nodyn
o fore gwyn tan blyg y dydd yn blet liw nos wedyn.
Dail y coed yn newid eu lliwiau’n bert
gyda thro ffasiynol bob tymor, mor hawdd â newid sgert.
Torri syched dros baned o de
ac iro sgwrs i helpu rhoi’r byd yn ei le.

Y pethau bychain hyn yw’r brodwaith
y pwytho sy’n gwneud pob dim yn brydferth, sdim dwywaith.
Y pethau bychain fel darnau gwydr ein bywyd a lathrwyd
yn llachar a llyfn gan fynd a dod y môr a’i donnau llwyd.

Pethau pwysig yw’r pethau bychain, does dim dwy,
am mai’r pethau hyn sy’n creu y rhywbeth mwy.

**Elinor Wyn Reynolds**

## Gwahoddiad i Encil

**Dydd Mercher, Ebrill 22 – Dydd Iau, Ebrill 23**
**Yng Ngwesty Radison RED, Lerpwl**

++++++++++++++++++++++++

Eleni, mae Encil y Gweinidogion yn ymweld â dinas Lerpwl, a charem eich gwahodd i ymuno â ni ar gyfer yr ail gymal.

Gofynnir am gyfraniad o £50 y person, a hynny’n cynnwys popeth a nodir yn yr amserlen isod.
Sylwch y bydd angen i bawb drefnu eu llety eu hunain.

I dderbyn y pecyn gwybodaeth, ac i gofrestru, cysylltwch â:
carwyn@annibynwyr.cymru

*Croeso cynnes i bawb*



Nos Fercher, Ebrill 22

17:15 Swper yng ngwesty Radison RED, Lerpwl
19:30 Darlith goffa Dr Pennar Davies a Dr Tudur Jones.
‘Eglwys Rydd y Cymry’ gan y Parchedig Ddr Geraint Tudur


Dydd Iau, Ebrill 23

09:00 Defosiwn a Seminar yn trafod agweddau o’r Ddarlith Goffa
10:15 Cenhadaeth yr eglwys mewn cymuned aml-ffydd.
Tystiolaeth eglwysi Lerpwl.
11:00 Defosiwn i gloi’r encil dan arweiniad y Parchedig Owain Llŷr
11:30 Cinio ac ymadael

Yr Adran Gydenwadol

CHWEFROR 26 2026 RHIF 261

# Dathlu chwarter canrif ers cyhoeddi *Caneuon Ffydd*




Roedd lansio *Caneuon Ffydd* yn 2001 yn benllanw ymdrech sylweddol o gydweithio. Er hynny, nid oedd yn syniad cwbl newydd. Mor bell yn ôl ag 1927, pan gyhoeddwyd *Llyfr Emynau y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd*, mynegwyd gobaith y byddai ymddangosiad llyfr at iws dau enwad 'yn foddion i gryfhau'r awydd … am weled holl adrannau Eglwys Crist yng Nghymru yn cytuno i ddarpar a defnyddio un casgliad'. Yn ogystal, cafwyd ymdrech fyrhoedlog ond ofer yn yr 1950au i greu casgliad dethol cydenwadol.

Ond ni wireddwyd y ddelfryd tan yr 1990au, efallai am fod erbyn hynny 'aeddfedrwydd ym mhob enwad' i'w choleddu, chwedl y diweddar Derwyn Morris Jones, ysgrifennydd pwyllgor *Caneuon Ffydd*. Gan fod yr enwadau i gyd am adnewyddu eu casgliadau o emynau a thonau, ond eto heb fod yn awyddus i fynd i'r gost o ailargraffu'r hen lyfrau, daeth pwyllgor o gynrychiolwyr enwadol at ei gilydd i drafod y posibilrwydd o greu llyfr cydenwadol newydd. Penderfynodd y pwyllgor hwn wahodd pwyllgor o unigolion oedd yn dod o'r gwahanol draddodiadau ond heb fod yn gynrychiolwyr swyddogol, i greu'r casgliad. Fel yn achos y rhan fwyaf o fentrau, felly, aeth mwy o amser heibio na'r disgwyl gwreiddiol cyn gallu dwyn y maen i'r wal. Ond, dan arweinyddiaeth ddoeth y diweddar Athro Brynley Roberts, llwyddwyd i gyrraedd y nod o gyhoeddi.

Ar hyd y blynyddoedd cafodd pawb hwyl fawr wrth drafod y 'fricsen' a gynhyrchwyd yn 2001, gyda rhai'n awgrymu bod y llyfr tonau yn fwy addas i gadw'r drws ar agor nag i fod yn llyfr canu. Ond mae'n deg cofio hefyd fod y dasg yn un sylweddol, yn 'antur enbyd' yng ngeiriau'r cadeirydd, yn bennaf am nad oedd man cychwyn cyffredin i bawb.

O amgylch y bwrdd roedd pobl pedwar traddodiad o leiaf: Annibynwyr y *Caniedydd*, Bedyddwyr y *Llawlyfr Moliant*, Eglwyswyr *Emynau'r Eglwys* ac *Emynau'r Llan*, a Phresbyteriaid a Wesleaid y *Llyfr Emynau a Thonau*, oedd ei hun yn gasgliad cydenwadol. Roedd gan bob un o'r enwadau lyfrau eraill heblaw eu 'prif lyfrau', oedd yn cael eu defnyddio'n gyson, ac roedd angen ceisio dethol o blith cynnwys y rheini, yn ogystal â chwilio am ddeunydd o gasgliadau eraill a deunydd newydd nad oedd wedi ei gyhoeddi o'r blaen. Roedd yn rhaid hefyd ystyried yr amrywiol ffurfiau o ran geiriau a phenillion oedd gan y gwahanol enwadau, a phenderfynu pa fersiwn a chynganeddiad o dôn i'w defnyddio.

Pan ddaeth y llyfr i ddwylo'r cynulleidfaoedd, roedd llawer yn siomedig o weld penillion oedd yn ddieithr iddynt a thôn nad oeddynt wedi arfer â hi. Ond cwbl amhosibl fyddai ceisio ailadrodd pob ffurf o emyn a phob priodas o emyn a thôn. Ac fel pob pwyllgor llyfr emynau a fu erioed, cafodd y pwyllgor hwn ei siâr o feirniadaeth am ei benderfyniadau, yn enwedig am fethu cynnwys rhyw emyn neu dôn arbennig.

Rhan o fwriad *Caneuon Ffydd* oedd ceisio adlewyrchu treftadaeth emynyddol Cymru drwy gynnwys dogn helaeth o'r emynau a'r tonau sy'n adnabyddus i bawb. Dyma'r emynau y byddai pobl yn disgwyl eu gweld mewn casgliad o emynau Cymraeg, hyd yn oed os yw rhai ohonynt erbyn heddiw y tu hwnt i gyrraedd cynulleidfa'r Sul ac yn gyfyngedig i gymanfaoedd canu achlysurol. Ceisiwyd hefyd ddethol emynau o waith emynwyr diweddar ac adlewyrchu traddodiadau eraill o'r tu allan i Gymru, gan gynnwys siantiau Taizé a chytganau amrywiol.

Yn anochel, efallai, dim ond cyfran o'r pethau newydd hyn sydd wedi apelio at gynulleidfaoedd yn gyffredinol, a gwell gan lawer yw pwyso ar y cyfarwydd a'r diogel. Nid bwriad y pwyllgor, fodd bynnag, oedd llorio cynulleidfaoedd â thoreth o ddeunydd anghyfarwydd, ond cynnig amrywiaeth. A dyfynnu Derwyn Morris Jones eto, 'darparu deunydd i ni addoli Duw a dyrchafu'n calonnau at yr Arglwydd oedd ein gorchwyl pennaf.' I'r graddau y mae cynulleidfaoedd o bob enwad yn defnyddio'r casgliad, a bod gwerthiant pur gyson ar gopïau o hyd, gellir dweud ei fod wedi llwyddo yn ei amcan sylfaenol, beth bynnag ei ddiffygion.

Ac ar ben pum mlynedd ar hugain, a nifer o aelodau'r pwyllgor a luniodd y llyfr bellach wedi ein gadael, beth sydd i'w ddweud? Barn Elfed oedd mai chwarter canrif oedd oes llyfr emynau, er bod nifer o'r llyfrau enwadol a fu gennym yn y gorffennol wedi byw dipyn yn hwy na hynny. Mae oes y llyfr traddodiadol yn prysur fynd heibio, a cheir heddiw ddefnydd cynyddol o emynau ar sgrin. O ddilyn y llwybr yna, gall cynulleidfaoedd wneud eu dewis eu hunain, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul, er enghraifft, heb fod wedi eu cyfyngu i lyfr printiedig. Eto i gyd, os bydd awydd yn codi o fewn yr eglwysi i baratoi casgliad print newydd yn y dyfodol, gobeithio y gellir dilyn esiampl *Caneuon Ffydd* o gydweithio ar draws ffiniau enwadol a chreu adnodd at ddefnydd pawb. Byddai hynny'n adlewyrchu un o amcanion gwreiddiol y prosiect, sef dathlu'r etifeddiaeth emynyddol gyfoethog sy'n perthyn inni i gyd.

*Rhidian Griffiths*
*Aberystwyth*

## Adnoddau i gefnogi *Caneuon Ffydd*

Mae 25 mlynedd wedi mynd heibio ers cyhoeddi *Caneuon Ffydd*, a dros y cyfnod hwnnw mae'r casgliad o dros 800 o emynau wedi ennill ei le fel y gyfrol Gymraeg safonol o emynau ar draws yr enwadau. Yn ystod y cyfnod hwn, cyhoeddwyd nifer o adnoddau ychwanegol i hyrwyddo a chefnogi'r gyfrol.

Mae gwefan www.gobaith.cymru yn cynnwys y rhan fwyaf o'r emynau a geir yn y gyfrol, ac yno mae modd cael cyflwyniad PowerPoint neu gopi electronig o'r geiriau. Yn ddiweddar ychwanegwyd tri mynegai at y wefan, sef mynegai themâu, mynegai ysgrythurol a mynegai i eiriau cyntaf pob pennill. Ar y wefan hefyd ceir rhestr gynhwysfawr o emynau dwyieithog, gan nodi'r emynau yn *Caneuon Ffydd* sydd hefyd ar gael yn Saesneg.

Ar wefan http://cristnogaeth.cymru/emynau-a-chaneuon/ mae cannoedd o donau ar ffurf ffeiliau mp3, sy'n dilyn trefn *Caneuon Ffydd*. Trwy nodi rhif yr emyn, ceir dewis o donau addas i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim.

S4C

***S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 1 Mawrth, am 7:30yh – Gŵyl Ddewi**
Rhaglen arbennig i ddathlu gŵyl ein nawddsant o Gadeirlan Tyddewi yng nghwmni Nia Roberts – cyfle i ymfalchïo yn ein treftadaeth grefyddol a'n hunaniaeth genedlaethol ym mam eglwys Cristnogaeth yng Nghymru. Cawn fwynhau gwledd o emynau, darlleniadau arbennig, perfformiadau gan Trystan Llyr Griffiths, Gwawr Edwards, Rose Datta a Chôr Ysgol Gerdd Ceredigion. Cyflwynir y fendith gan Esgob Tyddewi, y Gwir Barchedig Dorrien Davies.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 1 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yng nghwmni Rosa Hunt

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 1 Mawrth, am 12:00yp – Y Grawys o Gaernarfon**
Oedfa dan arweiniad Rhys Llwyd




### Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las, ger Aberteifi, 1–8 Awst 2026: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru **am 7 o'r gloch nos Iau, 5 Mawrth, yng Nghapel Mair, Aberteifi**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar gyrion tref Aberteifi, a hynny rhwng 1 a 8 Awst, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd y maes rai milltiroedd i'r de o Aberteifi, a bydd gennym ninnau ein gofod arferol o ddeg uned. Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddwn hefyd yn trafod trefniadau'r oedfa ar fore Sul agoriadol yr eisteddfod. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

CAFC RWAS

### Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, 20–23 Gorffennaf 2026: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru **am 12.30 o'r gloch bnawn Mawrth, 3 Mawrth 2026, yng Nghanolfan y CCRW ar Faes y Sioe yn Llanelwedd**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod y sioe eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer y sioe, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir y sioe yn ôl yr arfer yn Llanelwedd, ar gyrion Llanfair ym Muallt, rhwng 20 a 23 Gorffennaf, a bydd gan yr enwadau stondin/uned yno (uned rhif D-413) i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb. Byddwn yn darparu te a choffi; dewch â'ch cinio gyda chi wrth i ni ddechrau ar ein trafodaethau.

Am fanylion, pellach cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com



### Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn, Cae Sioe Môn, 23–9 Mai 2026: Pabell yr Eglwysi ac Ysgolion Sul

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru a Chyngor yr Ysgolion Sul **am 7 o'r gloch nos Lun, 2 Mawrth 2026, yng Nghapel Lôn y Felin, Llangefni** (ynghanol y dref, wrth ymyl siop Iceland a maes parcio mawr canol y dref), i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd ym Môn eleni. Edrychwn ymlaen at ddechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, a gynhelir rhwng 23 a 29 Mai ar Gae Sioe Môn, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno. **Noder y newid yn y trefniadau eleni: bydd yr Eisteddfod yn dechrau ar fore Sadwrn ac yn cael ei chynnal am saith diwrnod tan y nos Wener ddilynol.**

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y trefniadau. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

# Y GRAWYS – WYTHNOS 2

## Y gobaith o berthyn




**Darlleniad**

*Jeremeia 29:11*

**Myfyrdod**

Credwn nad yw Newyddion Da ein ffydd wedi'u bwriadu ar gyfer Cristnogion yn unig a bod cariad Duw yn cael ei ymestyn i bawb, a'u bod wedi'u gwneud yn ei ddelwedd ac yn debyg iddo. Cydnabyddwn hefyd y gall ein gweithredoedd fod yn brin o'r weledigaeth hon, gan osod amodau ar y ffordd rydym yn derbyn pobl neu'n cyfleu iddynt fod yn rhaid iddyn nhw fod yn debyg i ni neu wneud pethau ein ffordd ni i fod yn rhan o'n cymuned.

Thema gyson yn ein gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn yw'r angen i fyfyrio ar y gwahaniaeth rhwng croeso a pherthyn. Yn aml, bydd eglwysi, ac yn iawn o ran hynny, yn anelu at fod yn lleoedd o groeso i bawb, gan dynnu ar yr arfer o letygarwch a welwn wedi'i fodelu trwy gydol yr Ysgrythur. Yn rhy aml, fodd bynnag, gallwn fodloni ar gynnig croeso yn unig gan beidio â gofyn y cwestiynau dyfnach am yr hyn y byddai'n ei gymryd i greu'r amodau lle gallai pawb deimlo'u bod yn gwir berthyn. Efallai bydd gofyn i rai aelodau o'r gymuned wneud lle ar gyfer newid, neu hyd yn oed roi'r gorau i'r pethau maen nhw'n eu hystyried sy'n bwysig, er mwyn caniatáu i'r gymuned dyfu a chroesawu pobl o gefndiroedd amrywiol. Yn ddiamau, gall hyn fod yn anodd, yn enwedig i'r rhai sydd wedi buddsoddi llawer yn y gwaith o adeiladu'r gymuned. Heb greu'r lle hwn, ni allwn archwilio'r posibiliadau newydd y gall pobl â hunaniaethau a safbwyntiau eraill ddod gyda nhw.

O fewn ein cymunedau eglwysig mae yna lawer o bobl sy'n cael trafferth gyda'u hymdeimlad o berthyn. Efallai y byddan nhw'n teimlo fel pe baent wedi cael croeso ar y dechrau sy'n amodol ar eu gallu i newid ac addasu, neu na fydden nhw'n gallu bod yn arweinwyr. Efallai y bydd eraill yn teimlo nad yw eu cyfraniadau, a oedd unwaith yn bwysig, yn cael eu gwerthfawrogi mwyach, a bod y newidiadau a ofynnir ohonyn nhw yn rhy fawr neu'n rhy gostus. Yn aml, does dim atebion hawdd i'r heriau hyn, ond gall ymrwymiad i wrando'n ddewr helpu pobl i deimlo'u bod nhw'n cael eu gweld a'u clywed wrth i ni chwilio am y ffordd orau o gysoni anghenion gwahanol, gan gadw o'n blaenau weledigaeth Duw y byddai gan bawb obaith ar gyfer y dyfodol. Nid yw bod yn onest ynglŷn â'r brwydrau mewnol hyn yn gwanhau rôl arweinyddiaeth yr Eglwys. Mae'n ein helpu ni i ganfod a dangos empathi ag eraill sy'n ymdopi â'r tensiynau hyn mewn rhannau eraill o gymdeithas, gan gynnwys yr arweinwyr gwleidyddol sy'n cael eu galw i gynrychioli buddiannau a dyheadau amrywiol er lles cyffredin.

Wrth geisio cynnig gweledigaeth lawn gobaith ar gyfer popeth sy'n ymestyn y tu hwnt i'n cymunedau eglwysig, rydym hefyd yn cael ein galw i ystyried anghenion y rhai a allai deimlo bod yr Eglwys wedi cyfrannu at y rhwystrau rhag perthyn maen nhw wedi'u profi. Yn hanesyddol, mae Cristnogaeth wedi cael lle breintiedig ym Mhrydain ac Iwerddon. Heddiw, gwelwyd dirywiad yn nylanwad yr eglwysi tra mae Cristnogion wedi cymryd llawer o gamau cadarnhaol i gofleidio mannau cyhoeddus mwy amrywiol a lluosog. Ond gallwn fod yn ddall o hyd i weld i ba raddau y gall ein dylanwad ddieithrio rhai eraill wrth i ni lunio'r diwylliant.

Gwyddom hefyd nad yw pob safbwynt yn gyson â gweledigaeth o berthyn i bawb. Mae angen gwrthsefyll agweddau ac ymddygiad sy'n ymosod, yn bychanu ac yn dad-ddyneiddio pobl â gwirionedd a chyfiawnder. I Gristnogion, mae'r Ysgrythur yn rhoi sylfeini cadarn i ni ar gyfer y weledigaeth amgen hon, a gynigir yn ysbryd cariad. Mae hefyd yn ein herio i siarad a gweithredu i fynd i'r afael â strwythurau anghyfiawn sy'n rhwystro ymdeimlad pobl o berthyn. Mae ein gallu i gymryd rhan yn y gwaith hwn yn cael ei gryfhau pan fyddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth yn ein harweinyddiaeth fel bod ein sgyrsiau a'r gwaith a wnawn gyda'n gilydd yn cael eu cyfoethogi gan wahanol safbwyntiau.

**Cwestiynau i fyfyrio arnynt a'u trafod**

- Allwch chi feddwl am amser pan wnaethoch chi brofi argyfwng o ran perthyn, boed yn yr eglwys neu mewn cyd-destun gwahanol? Beth oedd rhai o'r ffactorau a gyfrannodd at hynny? Allwch chi feddwl am unrhyw gamau gweithredu a allai fod wedi eich helpu chi neu a wnaeth eich helpu yn y sefyllfa honno?
- Pan fyddwch chi'n meddwl am y rhai sy'n cael eu gwthio i'r cyrion yn eich cyd-destun lleol, am bwy ydych chi'n poeni fwyaf? Beth ydych chi'n ei ystyried yw eu hanghenion?
- Ble welwch chi arwyddion o wrthdaro ac argyfwng ar sail hunaniaeth yn eich cymuned leol? Beth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i fynd i'r afael â hyn? Pa ffactorau sy'n gwaethygu'r problemau hyn?

**Gweithredu**

- Adolygwch rai eitemau newyddion lleol. Beth, os rhywbeth, sy'n cael ei gyfleu ynghylch pwy sy'n perthyn, a phwy sydd wedi'i eithrio yn eich cymuned?
- Dewch o hyd i bost o'r cyfryngau cymdeithasol neu ddarn barn gan berson rydych yn anghytuno ag ef / â hi. Ystyriwch a allwch chi nodi unrhyw bwyntiau cyswllt neu werthoedd a rennir a allai eich helpu i gysylltu â'r rhai sy'n arddel y safbwyntiau hyn mewn ffordd sy'n cynnal urddas pawb.
- Nodwch grŵp sy'n gwneud gwaith cadarnhaol i fynd i'r afael â gwrthdaro ar sail hunaniaeth yn eich ardal. Sut allech chi gefnogi ac annog eu gwaith?

**Gweddi**

Duw pawb,
Helpa ni i ddod o hyd i ffordd o fod yn adeiladwyr pontydd,
yn enwedig lle mae'r bylchau rhwng pobl yn ymddangos yn anobeithiol o lydan.
Rho'r dewrder i ni wynebu ein dallineb i rai pethau
ac ymrwymo i'r sgyrsiau anghyfforddus am dderbyn gwahaniaethau
i helpu pawb i berthyn.
Bydd yn agos at bawb sy'n brwydro â'r teimlad nad ydyn nhw'n perthyn.
Helpa nhw i ganfod gobaith o gysylltu drwy estyn allan yn dosturiol.
Yn dy drugaredd iachâ'r rhai y mae eu brwydrau â hunaniaeth a pherthyn
wedi eu tywys ar hyd llwybr casineb a thrais.
Gweddïwn y bydd pawb sy'n teimlo ar goll yn dod o hyd i gartref ynot ti. Amen.

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Myfyrdod
## (Cyfarfodydd blynyddol yr Undeb 2025)

**Darlleniad: Actau 8:26–40 (Philip a'r Eunuch o Ethiopia)**

Ar ddechrau'r bennod hon, fe gawn hanes yr erlid mawr fu ar y Cristnogion yn Jerwsalem y diwrnod y cafodd Steffan ei labyddio. O ganlyniad i hynny, fe yrrwyd pawb ond yr apostolion ar wasgar drwy Jwdea a Samaria. Roedd yn gyfnod enbyd a 'Saul yn anrheithio'r eglwys: [yn] mynd i mewn i dŷ ar ôl tŷ, a llusgo allan wŷr a gwragedd, a'u traddodi i garchar.' [adn. 3] Ac ymhlith y rhai aeth ar wasgar yr oedd Philip; fe aeth ef i ddinas yn Samaria a 'dechreuodd gyhoeddi'r Meseia iddynt.' [adn 5] Bu bendith yn y ddinas honno; 'y tyrfaoedd yn dal yn unfryd ar eiriau Philip, wrth glywed a gweld yr arwyddion yr oedd yn eu gwneud.' [adn. 6] A'r arwyddion hynny oedd bwrw allan ysbrydion aflan oedd wedi meddiannu pobl. Hefyd, cafodd rhai oedd wedi eu parlysu a rhai pobl gloffion eu hiachau. Does dim rhyfedd i Luc, sy'n adrodd y stori wrthym, ddweud, 'A bu llawenydd mawr yn y ddinas honno.' [adn. 8]

**Gorchymyn yr angel**

Yn ddiweddarach, fe siaradodd angel efo Philip a'i orchymyn i gymryd taith tua'r de ar hyd ffordd anial sy'n mynd o Jerwsalem i Gasa. Cafodd Philip gyfarwyddyd gan yr Ysbryd Glân i lynu wrth gerbyd yr oedd pennaeth trysorlys brenhines Ethiopia yn teithio ynddo. Mae Philip yn ufuddhau, ac wrth ddod i ymyl y cerbyd, mae'n ei glywed yn darllen rhan o broffwydoliaeth Eseia. 'Wyt ti'n deall beth wyt ti'n ei ddarllen?' 'Sut y medraf ddeall heb i rywun ei esbonio imi?' Ac mae Philip yn cael gwahoddiad i fynd i mewn i'r cerbyd, er mwyn iddo fo fedru esbonio'r hanes i'r Ethiopiad. Mi nodwn ni rai pwyntiau sy'n codi isod.

**Cynnwys neges Philip**

'Traethodd y newydd da am Iesu iddo.' Iesu Grist yw cynnwys y neges. Mae Philip yn dechrau drwy esbonio mai am Iesu Grist y mae'r proffwyd Eseia'n sôn a hynny ganrifoedd cyn geni'r Gwaredwr. Rydym yn cael yr un math o esbonio gan Iesu Grist yn hanes ei ymddangosiad i'r disgyblion ar ddiwedd Efengyl Luc. Dywed Iesu wrthynt 'bod yn rhaid i bob peth gael ei gyflawni sy'n ysgrifenedig amdanaf yng Nghyfraith Moses a'r proffwydi a'r salmau … fel hyn y mae'n ysgrifenedig: fod y Meseia i ddioddef, ac i atgyfodi oddi wrth y meirw ar y trydydd dydd, a bod edifeirwch, yn foddion maddeuant pechodau, i'w gyhoeddi yn ei enw ef i'r holl genhedloedd, gan ddechrau yn Jerwsalem.' [Luc 24: 44, 46, 47] Dyma'r neges fuasai wedi ei chyflwyno i'r Ethiopiad; dyma'r neges a gredwyd ganddo ac o'i chredu, gofynnodd am gael ei fedyddio, a dyna a wnaed. Yn ôl y stori, pan ddaethant i fyny o'r dŵr, cipiwyd Philip ymaith gan ysbryd yr Arglwydd a welodd yr Ethiopiad mohono wedyn. Er hynny, mi aeth hwnnw 'ymlaen ar ei ffordd yn llawen.' 'O'r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi – daeth Iesu i'm calon i fyw.' [*Caneuon Ffydd* 797].

**Cysondeb y neges**

Dyma'r neges sy'n cael ei chyhoeddi'n gyson gan yr apostolion a'r credinwyr gydol llyfr yr Actau. Craidd y neges yw Iesu Grist, yn ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Ef yw Gwaredwr y byd ac ynddo Ef y mae gobaith y ddynoliaeth. Mae yna stori am bwyllgor erstalwm gan y Methodistiaid Calfinaidd i drefnu cyfarfod teyrnged i John Cynddylan Jones, y gweinidog a'r esboniwr. Dywedodd yr ysgrifennydd ei fod wedi gofyn i weinidog blaenllaw yn eu plith i ddweud gair am Cynddylan. Dechreuodd aelod o'r pwyllgor ochneidio a thuchan 'be oedd y pwynt gofyn iddo fo o bawb? Fedar hwnnw sôn am neb na dim ond am Iesu Grist!' Yn y 'condemniad' yna, fe gafwyd teyrnged arbennig i'r gweinidog! A siarad am Iesu Grist y mae'r credinwyr yn llyfr yr Actau.

**Nid oes enw arall dan y nef**

Er nad yw pob pregeth neu anerchiad yn llyfr yr Actau yn union yr un fath, yr un yw'r neges. Fel yn araith Pedr ar y Pentecost: 'gwybydded holl dŷ Israel yn sicr fod Duw wedi gwneud yn Arglwydd ac yn Feseia, yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi.' O glywed y geiriau yna, fe ddwysbigwyd y gwrandawyr a pheri iddynt ofyn 'beth a wnawn ni gyfeillion?' Ateb Pedr yw, 'Edifarhewch, a bedyddier pob un ohonoch yn enw Iesu Grist er maddeuant eich pechodau.' [Actau 2: 37, 38] Ac yn eu hamddiffyniad gerbron y Cyngor yn Jerwsalem (wedi i'r dyn cloff hwnnw gael ei iacháu wrth Borth y Deml) beth ddywed Pedr am Iesu Grist? 'Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall, oblegid nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roi i'r ddynolryw, y mae'n rhaid inni gael ein hachub drwyddo.' [Actau 4: 12]

**Stori Paul a Silas yn y carchar**

Tua hanner nos, bu daeargryn mawr, nes siglo seiliau'r carchar; y drysau i gyd yn cael eu hagor, a rhwymau a chyffion pawb yn cael eu datod. Yng nghanol hyn i gyd,



mae ceidwad y carchar yn deffro ac yn gweld drysau'r carchar yn agored. Yn naturiol, mae'n meddwl fod pawb wedi dianc. Gan wybod beth fyddai ei dynged am adael i garcharorion ddianc, mae'n tynnu ei gleddyf gan fwriadu gwneud amdano'i hun. Ond mae Paul yn gweiddi arno i beidio, gan ddweud fod pawb o'r carcharorion yn dal yno. Mae ceidwad y carchar yn gofyn i Paul a Silas, 'Foneddigion, beth sy raid imi ei wneud i gael fy achub?' Caiff ei ateb ar amrantiad: 'Cred yn yr Arglwydd Iesu, ac fe gei dy achub, ti a'th deulu.' [Actau 16: 30, 31] Ni ddylem feddwl yn y fan hyn, os yw ceidwad y carchar yn credu yn Iesu Grist, ei fod ef *a'i* deulu yn cael eu hachub. Na, mae pawb i gredu drosto'i hun. Dweud mae Paul a Silas fod yr addewid yna i bawb – os wyt ti yn credu yn Iesu Grist, fe gei dy achub. Ac os yw dy deulu wedyn yn credu yn Iesu Grist, fe gânt hwythau eu hachub.

Bydd gweddill y myfyrdod yn y rhifyn nesaf *Y Tyst*.

**Dafydd Roberts**

Eglwys Annibynnol Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AP

Cyngerdd Dathlu 300 Mlwyddiant
Capel Heol Awst

DYDD SUL, 22 MAWRTH 2026
AM 6.00 YR HWYR

Artistiaid:
Fflur Wyn (Soprano)
Côr Ysgol Bro Myrddin
Adran yr Urdd Ffynnonddrain

Cyfeilydd – Sioned Beynon
Organydd – Meirion Wynn Jones

Cadeirydd – Prif Gwnstabl Ifan Charles,
Heddlu Dyfed-Powys

Llywydd – Y Parchedig Beti-Wyn James
Gweinidog

Mynediad £10 wrth y drws
Plant ysgol am ddim

Croeso Cynnes i bawb

Elw'r noson i'w rannu rhwng:
Côr Ysgol Bro Myrddin ac Adran yr Urdd Ffynnnonddrain

# Golygyddol

## Ar gyfer y Grawys

**Beth yw natur y diafol?**

Tybed ydyw'r arferiad o 'gadw'r mis', pan oedd y gweinidog yn ymweld â theuluoedd, yn eu tro, ar un Sul y mis i ginio neu de, yn parhau mewn ambell eglwys? Yn chwe blwydd oed, rwy'n cofio'r Parchg S. B. Jones yn dod atom i de, ac yn gofyn i mi beth oeddwn wedi'i ddysgu yn yr ysgol Sul? Daeth mam â llyfr i blant oedd â llun ynddo o greadur coch gyda chyrn a chwt hir. Cofiaf SB yn gofyn i mi beth oedd y diafol, ac atebais 'dyn drwg!' A phawb yn canmol.

Fe wnes i gwrdd â'r diafol sawl tro yn ystod taith fy mywyd ers hynny – yn fy meddwl fy hun ac mewn ymddygiad eraill. Nid creadur fel yr un yn y llyfr yw'r diafol, ond yr elfen mewn dynoliaeth sy'n gallu drysu ein meddyliau ni a'n harwain ar hyd ffyrdd anghywir. Mae'r potensial yna'n byw ynom ni i gyd i ryw raddau, gan mai dim ond Duw yn Iesu Grist yw'r person perffaith.



### Ymprydio hir

Ar ôl cael ei fedyddio yn Afon Iorddonen, bu'n rhaid i Iesu fynd allan i'r anialwch i oresgyn temtasiynau'r diafol. Ond yn gyntaf, bu'n rhaid ymprydio am 40 diwrnod. Ni all neb fyw am wythnos heb ddŵr, ac nid yw Mathew na Luc yn dweud bod Iesu wedi gwneud hynny. Eto, mae'n bosib i berson iach fyw am 40 diwrnod heb fwyd. Yn wir, buodd Bobby Sands ar streic newyn mewn carchar yng Ngogledd Iwerddon am ddeufis cyfan cyn marw. Fel Iesu, mae rhai Iddewon a Christnogion yn dal i ymprydio am dros fis. Ar ôl tridiau, o'u profiad hwy, mae'r awydd am fwyd yn cilio. Ond ar ôl 40 diwrnod, pan mae pob owns o fraster sydd yn y corff wedi diflannu, fe ddaw blas anarferol i'r geg sy'n arwydd bod y corff yn dechrau troi at dynnu maeth o'r esgyrn a'r organau mewnol er mwyn aros yn fyw. Bryd hynny, mae'r awydd am fwyd yn dod nôl. A dyna oedd profiad Iesu: 'Wedi iddo ymprydio am ddeugain dydd a deugain nos daeth arno eisiau bwyd.' Mae yna reswm biolegol am arwyddocâd y deugain diwrnod.

### Tair temtasiwn

Dyna oedd cyflwr bregus Iesu pan gafodd ei demtio. Ai ar ffurf chwant a syniadau yn ei feddwl ei hun y daeth yr hyn sy'n cael ei alw'n ddiafol ato? Iesu'n



chwilio am gadarnhad mai fe oedd Mab Duw yn wir, a beth oedd hynny'n golygu, beth oedd pwrpas ei fywyd, a sut oedd e i ddefnyddio'r statws dwyfol yma?

Gyda'r chwant am fwyd wedi dychwelid, y demtasiwn gyntaf sy'n dod i feddwl Iesu oedd, os taw Mab Duw wyt ti, gallu di droi'r cerrig yma'n fara. Ond wedyn mae'r adnod (y cyntaf o dair o lyfr Deuteronomium yn yr hanes) yn dod i'w gof: 'Nid ar fara yn unig y bydd rhywun fyw, ond ar bob gair sy'n dod allan o enau Duw.' Mae Iesu'n ymwrthod â'r demtasiwn i gamddefnyddio'i bŵer i ddiwallu anghenion corfforol, ond yn hytrach i bregethu hynny i eraill.

Wedyn, mae Iesu'n gorfod ystyried beth fyddai'n digwydd petai'n taflu ei hun o dŵr uchaf y deml yn Jerwsalem i weld os byddai'r angylion yn ei ddal. Byddai hynny'n siŵr o brofi mai Mab Duw ydyw! Ond na, mae e'n troi at yr adnod 'Paid â gosod yr Arglwydd dy Dduw ar ei brawf.'

Yn olaf, mae Iesu'n cael ei demtio i gamddefnyddio'r statws unigryw cafodd gan Dduw trwy ei roi at bwrpas gwleidyddol; ildio i'r awydd am bŵer ac uchelgais a chlod personol – sef addoli'r hyn mae'r hanes gan yr efengylwyr yn ei alw'n ddiafol. Ond mae Iesu'n gyrru'r demtasiwn yma eto allan o'i feddwl: 'Dos ymaith, Satan; oherwydd y mae'n ysgrifenedig "Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethu." '

### Y diafol yn dilyn Iesu

Ar ôl gadael unigrwydd yr anialwch, mae Iesu Grist yn ymdaflu i'w weinidogaeth. Ond byddai'r diafol yn ei ddilyn o hyd – nid yn unig yn y gelynion crefyddol oedd yn ceisio'i faglu ar air a gweithred, ond hyd yn oed yn Pedr pan geisiodd hwnnw ddarbwyllo Iesu rhag mynd i Jerwsalem i gael ei ladd, ac yntau'n ateb: 'Dos o'm golwg i Satan!' Yn wir, mae'n ei ddilyn yr holl ffordd i'r weddi yng Ngardd Gethsemane, lle mae Iesu'n gofyn i'w Dad os yw'n bosib ei arbed rhag y farwolaeth erchyll trwy 'fynd a'r cwpan chwerw' i ffwrdd, cyn iddo ymwrthod â'r demtasiwn olaf a phlygu i ewyllys Duw.

### Y diafol yn dilyn ni

A beth am y temtasiynau ddaw ar ein traws ninnau yn ein bywydau bob dydd? Os oedd Iesu Grist, Mab Duw, yn gorfod ymaflid â hwy yn eu hamryw ffurf ar hyd ei weinidogaeth, pa obaith sydd i ni? Rwy'n troi eto at un o ganeuon Cristnogol Bob Dylan, sy'n sôn am alwad parhaus y temtasiynau personol, a gofal Duw am 'y pethau bychain' ar hyd taith ei fywyd.

> I gaze into the doorway of
> temptation's angry flame
> And every time I pass that way I'll
> always hear my name;
> But onward in my journey I come to
> understand
> That every hair is numbered like
> every grain of sand.

Mae'r gân yn adlais o eiriau'r salmydd bod meddyliau Duw yn fwy niferus na'r holl ronynnau tywod, a datganiad Iesu Grist bod Duw wedi cyfrif pob blewyn o wallt ein pennau ni. Dyna fanylder ei ofal drosom yn wyneb pa bynnag ffurf o ddiafol sy'n dod i'n bywydau ni heddiw.

**Alun Lenny**


# BUGEILIO'N GILYDD



**'Gofalwch amdanoch eich hunain ac am yr holl braidd'** (Actau 20:28)

Ydych chi'n angerddol dros estyn gofal a chariad?
Ydych chi'n teimlo galwad i estyn gofal bugeiliol?
Ydych chi awydd dysgu mwy am fugeilio'n gilydd?

**Dyma wahoddiad i chi ddilyn y modiwl 'Bugeilio'n Gilydd'.**

Nos Lun, Chwefror 2, 9, 23, Mawrth 2, 9, 16, 23 a 30
7:00 – 8:30 o'r gloch ar Zoom,
dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall.

Am fwy o wybodaeth, neu i gofrestru: carwyn@annibynwyr.cymru

**Croeso cynnes i bawb**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,**
**Caerdydd, CF23 9BS**
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru**

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
**ABERTAWE SA7 0AJ**
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru**

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.


# Gwarchod copiau'r *Tyst* i'r dyfodol




Dyma lun o Meinir Williams, Swyddog Gweinyddol Undeb yr Annibynwyr, gyda Fabio o gwmni rhwymo llyfrau F. C. yn Abertawe. Mae Fabio a'i frawd Roberto wedi bod yn rhwymo copïau o'r *Tyst* er mwyn eu cadw'n ddiogel yn llyfrgell Tŷ John Penri ers sawl blwyddyn bellach. Aeth Meinir â holl rifynnau'r *Tyst* o 2025 i'w rhwymo'r wythnos hon.

Etifeddodd Fabio'r cwmni gan ei dad yng nghyfraith, Mike T. Hannen, ac mae'n falch o fedru parhau'r traddodiad; mae'r ddau frawd yn dangos cryn falchder yn ansawdd a safon eu gwaith. Cwmni sy'n rhwymo traethodau academaidd ar gyfer prifysgolion a hefyd yn adfer hen lyfrau yw F. C. ac mae galw cyson am eu harbenigedd. Y mae Fabio'n helpu Tŷ John Penri a'r Undeb i warchod eu hanes ar gyfer y dyfodol.

Ac os alwch chi gyda Fabio, mi gewch baned o goffi da ganddo hefyd.





# Dydd Gweddi'r Byd 2026




Mae Dydd Gweddi'r Byd yn fudiad byd-eang, a arweinir gan ferched Cristnogol o draddodiadau amrywiol, sy'n ein galw i ddod ynghyd ar y dydd Gwener cyntaf ym mis Mawrth i weddïo. Mae dros 120 o wledydd yn cymryd rhan mewn diwrnod blynyddol o ddathlu sy'n uno pobl o bob hil, diwylliant a thraddodiad wrth rannu Gair Duw ac addoli.

Paratowyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd 2026 gan grŵp ecwmenaidd o ferched Cristnogol o Nigeria. Yn y gwasanaeth, mae'r merched hyn yn canolbwyntio ar wahoddiad Iesu yn Mathew 11:28–30, gan ein galw i ddod yn agos at Dduw a chael gorffwystra ynddo. Mae storïau pedair merch o Nigeria yn ein hysbrydoli i weithio tuag at fyd heb anghyfiawnder, ansicrwydd, bod ar y cyrion, erledigaeth grefyddol, tlodi ac anobaith. Wrth inni ymddiried yn Nuw, yr un sy'n cario ein beichiau, cawn dderbyn gorffwystra a chael nerth i'w rannu gyda'r byd.

Nid yw'n rhy hwyr! Beth am drefnu oedfa ar fyr rybudd y Sul yma? Mae adnoddau ar gyfer Dydd Gweddi'r Byd i'w canfod ar wefan yr Undeb, www.annibynwyr.org/cy/page/dydd-gweddi-r-byd-2026




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*